



Adroddiad RSPCA Cymru:
Datblygu'r gwaith o reoleiddio
Sefydliadau Lles Anifeiliaid
yng Nghymru

Ebrill 2023



Rhagair

Mae RSPCA Cymru wedi galw ers tro byd am reoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid er mwyn cael mesurau diogelu cyfreithiol i'r anifeiliaid hynny sydd mewn llochesi a chanolfannau achub ac ailgartrefu yng Nghymru. Yn wahanol i sefydliadau fel ysgolion marchogaeth, bridwyr cwn a llety cathod, nid yw Sefydliadau Lles Anifeiliaid yn ddarostyngedig i reoliadau yng Nghymru ar hyn o bryd, sy'n golygu y gall unrhyw un fynd ati i sefydlu un, dim ots a oes ganddynt y sgiliau neu'r adnoddau angenrheidiol i ofalu am yr anifeiliaid ai peidio. Fel y mae, mae bwlch mawr rhwng disgwyliadau'r cyhoedd ynghylch rheoleiddio'r sefydliadau hyn – a'r realiti – fel y dangosa'r data yn yr adroddiad hwn. Er bod sefydliadau o'r fath yn aml yn gwneud gwaith amhrisiadwy wrth adsefydlu ac ailgartrefu neu ryddhau anifeiliaid, nid oes deddfwriaeth benodol ar eu cyfer y tu hwnt i Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 er mwyn diogelu lles anifeiliaid yn y sefydliadau hyn y gellir eu sefydlu heb oruchwyliaeth nac archwiliadau nac unrhyw ofyniad cyfreithiol i weithredu safonau lles cryf a chynlluniau wrth gefn.

Yn anochel, yr RSPCA sy'n gorfod dod i'r adwy pan aiff pethau o chwith – rydym wedi ymchwilio i nifer o achosion o ofal annigonol mewn Sefydliadau Lles Anifeiliaid yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys achosion sydd wedi cael sylw mawr yn sgil methiannau sefydliadau o'r fath yng Nghymru. Mae achosion sy'n ymwneud â'r sefydliadau hyn yn aml yn rhai sy'n para'n hir ac yn gymhleth iawn a gallant gynnwys nifer fawr o anifeiliaid a chostau mawr ynghlwm. Yn ogystal â defnyddio cryn dipyn ar adnoddau prin ein swyddogion, mae ein gwaith gyda sefydliadau fel y rhain hefyd wedi golygu ein bod wedi gorfod adsefydlu a rhyddhau anifeiliaid a oedd â mawr angen gofal priodol arnynt mēgis ffwlbartiaid a jac-y-dos ynghyd â dod o hyd i gartrefi i lawer, lawer iawn o gathod, cwn a cheffylau. Mae pobl sy'n agor sefydliadau lles yn aml â'r bwriadau gorau ar y dechrau ond yn fuan cânt eu hunain mewn dyfroedd dyfnion, fel y gwelwyd yn hanes methiant sawl lloches a chanolfan achub yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym am helpu i sicrhau na pheryglir lles yr anifeiliaid yn y sefydliadau hyn, creaduriaid sy'n aml yn fregus. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu deddfwriaeth Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru yn ystod tymor y Senedd hon er mwyn sicrhau bod gwell amddiffyniadau ar waith i anifeiliaid sydd angen lloches, eu hachub neu eu hailgartrefu.

David Bowles

Pennaeth Materion Cyhoeddus, yr RSPCA

Tra bod Sefydliadau Lles Anifeiliaid yn aml yn gwneud gwaith amhrisiadwy yn ailsefydlu ac ailgartrefu neu ryddhau anifeiliaid, nid oes deddfwriaeth benodol yn ei lle y tu hwnt i Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 i ddiogelu lles anifeiliaid yn y sefydliadau hyn.

Methodoleg

Nod yr adroddiad hwn yw asesu'r angen a'r awydd i reoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru a dirnad llwyddiant y Cod Ymarfer ar gyfer Sefydliadau Lles Anifeiliaid a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020. Fe'i lluniwyd gan ddefnyddio dulliau ymchwil amrywiol sy'n cynnwys holiaduron a chasglu barn, data gan awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru ac adroddiadau blaenorol ar y pwnc hwn yn ogystal â thystiolaeth gan arolygwyr yr RSPCA.

Cefndir a dogfennau perthnasol

Defnyddir y term Sefydliad Lles Anifeiliaid yn gyffredinol i ddisgrifio 'person neu sefydliad sy'n cynnig eu hunain i dderbyn anifeiliaid bregus yn rheolaidd, boed yn anifeiliaid anwes, yn anifeiliaid fferm, yn greaduriaid gwyllt, yn anifeiliaid gwarchoddedig neu rai eraill, gyda'r bwriad o'u hadsefydlu er mwyn naill ai eu hailgartrefu neu eu rhyddhau (yn ôl i'r gwyllt), neu roi gofal hirdymor iddynt!'. At ddibenion yr adroddiad hwn, defnyddir y gair 'Sefydliad' i gyfeirio at sefydliadau sydd heb eu rheoleiddio ar hyn o bryd fel llochesi a chanolfannau achub ac ailgartrefu anifeiliaid.

Yn 2012, cyhoeddodd Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWNW) adroddiad o'r enw 'The case for the regulation of Animal Welfare Establishments in Wales', a chyfrannodd RSPCA Cymru ato fel aelod o'r rhwydwaith. Cyhoeddwyd *Cod Ymarfer Gorau ar gyfer Sefydliadau Lles Anifeiliaid*², sef cod gwirfoddol, ym mis Medi 2020 o ganlyniad i gydweithio parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith, a hwn yn gam pwysig ymlaen tuag at ddiogelu lles yr anifeiliaid yn Sefydliadau Lles Anifeiliaid Cymru. Mae'r Cod Ymarfer hwn yn cynnwys canllawiau arfer gorau ar gyfer gweithredwyr, gan ganolbwyntio ar faterion yn ymwneud â gofalu am anifeiliaid, yn ogystal â rheoli staff a gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, oherwydd bod y Cod yn gyfan gwbl wirfoddol nid oes unrhyw sicrwydd cyfreithiol y caiff ei ddilyn, a gan fod yr RSPCA yn dal i dderbyn adroddiadau am Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru ac yn gorfod cymryd camau yn erbyn sefydliadau o'r fath ers cyhoeddi'r Cod, nid yw'n glir faint o effaith a gafodd hyd yma. Mae data gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu mai dim ond 653 o weithiau yr ymwelwyd â'r ddwy dudalen we sy'n cynnwys dolenni i'r Cod Ymarfer ar eu gwefan (636 o ymweliadau â'r dudalen Saesneg, 17 ymweliad â'r dudalen Gymraeg) o fis Medi 2020 hyd at Chwefror 2022, heb unrhyw ymholiadau eraill am y Cod na'i gynnwys wedi dod i law yn ystod y 18 mis diwethaf.³ Gan fod y ddogfen hon wedi bod ar waith ers Medi 2020, teimlai RSPCA Cymru fod yr adroddiad hwn yn amserol i asesu a yw'r Cod Ymarfer wedi effeithio ar yr angen, neu'r awydd, am reoleiddio statudol – a mesur barn y sector lles anifeiliaid, y Sefydliadau Lles eu hunain a'r cyhoedd yn ehangach.

Gan fod degawd wedi mynd heibio ers cyhoeddi adroddiad y Rhwydwaith Lles Anifeiliaid, rydym yn awr yn adnewyddu ein galwad i reoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru ac wedi cynnal ymchwil newydd dros gyfnod o bedwar mis (Hydref 2021 – Chwefror 2022) i gael tystiolaeth i gyfrannu at drafodaethau'r dyfodol ar y pwnc hwn, gan ganolbwyntio'n benodol ar lwyddiant y Cod Ymarfer ers ei gyflwyno ym mis Medi 2020. Yn gadarnhaol, wrth i ni gasglu tystiolaeth at ddibenion yr adroddiad hwn, aeth Llywodraeth Cymru ati i gynnwys cyflwyno 'cofrestru sefydliadau lles anifeiliaid' yng Nghynllun Lles Anifeiliaid Cymru, sef cynllun sy'n nodi ei blaenoriaethau yn gysylltiedig â'r maes hwn hyd at 2026, fel rhan o ehangu posibl ar Reoliadau Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid (Cymru) 2021.

Cynhaliwyd dadl yn y Senedd ar reoleiddio canolfannau achub ac ailgartrefu hefyd ym mis Tachwedd 2021⁴, gydag Aelodau'r Senedd yn pleidleisio o blaid datblygu deddfwriaeth o'r fath – er mawr lawenydd i RSPCA Cymru a llawer o rai eraill ledled y sector lles anifeiliaid. Wrth i Lywodraeth Cymru ymgynghori â'r sector ar y ffordd orau o ddatblygu deddfwriaeth o'r fath, gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i lenwi rhai o'r bylchau yn y dystiolaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd ac yn amlinellu rhai o'r gwersi a ddysgwyd ers cyflwyno'r Cod Ymarfer.

1. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-09/sefydliadau-lles-anifeiliaid-cod-arferion-gorau.pdf>

2. Llywodraeth Cymru – Cod Arfer Gorau ar gyfer Sefydliadau Lles Anifeiliaid, Medi 2020

3. Derbyniwyd y wybodaeth hon yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar 15 Chwefror 2022.

4. Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2021

Holi'r cyhoedd

Er mwyn cael gwybod sut mae'r cyhoedd yn teimlo erbyn hyn ynghylch rheoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru, cynhaliom arolwg cyhoeddus drwy YouGov a ofynnodd gyfres o gwestiynau i 1,010 o oedolion sy'n byw yng Nghymru ar y pwnc hwn.⁵

Yn ddealladwy efallai, ychydig o ddealltwriaeth sydd gan y cyhoedd o sut y caiff Sefydliadau o'r fath eu rheoleiddio, gyda dros chwarter yr oedolion (27%) yn cyfaddef eu bod yn ansicr. Dim ond 5% a atebodd yn gywir drwy ddweud nad yw sefydliadau wedi'u rheoleiddio ar hyn o bryd, a dyma'r ateb lleiaf aml a ddewiswyd. Cred 19% o oedolion fod awdurdodau lleol Cymru eisoes yn rheoleiddio'r sefydliadau, gydag 11% yn tybio bod hyn yn dod o dan gyfrifoldebau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, roedd 10% o'r farn mai'r RSPCA sy'n gwneud hyn a 7% yn credu bod y sefydliadau yn rheoleiddio eu hunain. Awgryma hyn fod y cyhoedd eisoes yn tybio bod Sefydliadau Lles Anifeiliaid yn cael eu rheoleiddio ar ryw ffurf, thema a nodwyd yn flaenorol gan adroddiad Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru yn 2012; ac mai ychydig sy'n ymwybodol nad oes deddfwriaeth benodol ar waith ar gyfer y sefydliadau hyn ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, mae galw mawr gan y cyhoedd i reoleiddio sefydliadau o'r fath yng Nghymru, gydag **88% yn cytuno y dylent gael eu rheoleiddio**. Dim ond 3% o oedolion a ddymunai weld y Sefydliadau yn parhau i fod heb eu rheoleiddio yng Nghymru, gyda 9% yn ateb nad oeddent yn siwr/'ddim yn gwybod'. Gyda mwyafrif mor llethol o blaid rheoleiddio sefydliadau o'r fath, mae'n amlwg bod dymuniad ymhlith y cyhoedd i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno yn benodol ar gyfer y sefydliadau hyn.

Teimlai mwyafrif y dylai rheoleiddio'r Sefydliadau fod yn gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru (38%) neu awdurdodau lleol (23%). Yn ddiddorol, credai un o bob pump (19%) mai'r RSPCA ddylai reoleiddio'r Sefydliadau yng Nghymru, tra bod 10% o blaid cael y gwaith o'u rheoleiddio yn dod o dan gylch gorchwyl Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Y dewis lleiaf poblogaidd oedd rhoi'r cyfle i'r diwydiant reoleiddio ei hun gyda dim ond 4% yn dewis hyn, gyda 6% arall o'r ymatebwyr yn ateb nad oeddent yn siwr/'ddim yn gwybod' pwy ddylai reoleiddio'r sefydliadau.

Gofynnai'r cwestiwn olaf i bwy y byddai'r ymatebydd yn rhoi gwybod iddynt pe bai ganddynt bryderon am les anifeiliaid mewn Sefydliad Lles Anifeiliaid y byddent wedi ymweld ag ef, gyda'r mwyafrif (71%) yn dewis cysylltu ag elusennau lles anifeiliaid fel yr RSPCA yn yr achos hwn, yn ogystal â'r awdurdod lleol perthnasol (35%) a'r heddlu (28%). Tra bod 6% wedi yn dweud nad oeddent yn siwr/'ddim yn gwybod' pwy y dylent gysylltu â hwy, da o beth oedd mai dim ond 2% a ddywedodd na fyddent yn rhoi gwybod o gwbl am eu pryderon, gan ddangos y byddai gweld arwyddion o les gwael mewn sefydliad yn peri digon o bryder i'r rhan fwyaf o bobl iddynt wneud rhywbeth am y peth. Gan fod llawer yn dewis cysylltu ag elusennau, awdurdodau lleol a'r heddlu, dengys hyn sut y gofynnir i'r rhain ddefnyddio eu hadnoddau i ymchwilio i Sefydliadau Lles – er nad oes unrhyw ddeddfwriaeth benodol yn berthnasol i'r sefydliadau hyn o ran camau gorfodi.

Rôl awdurdodau lleol ar hyn o bryd

Oherwydd y diffyg rheoleiddio, nid yw awdurdodau lleol Cymru yn gyfrifol ar hyn o bryd am reoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid. Fodd bynnag, awgryma ein hymchwil eu bod yn dal i dderbyn ymholiadau gan y cyhoedd ynghylch sefydliadau o'r fath a'u bod hefyd wedi gorfod cymryd rhan mewn ymchwiliadau yn ymwneud â'r sefydliadau hyn. Yn bryderus, awgryma ymchwil hefyd nad oes gan yr un o awdurdodau lleol Cymru y Cod Ymarfer uchod ar eu gwefan ac nad ydynt eto wedi derbyn unrhyw ymholiadau am y Cod Ymarfer gan y cyhoedd ychwaith. Mae'r ymchwil a gynhaliwyd gennym yn awgrymu nad yw llawer o awdurdodau lleol yn gwybod ar hyn o bryd faint o Sefydliadau Lles Anifeiliaid sydd ganddynt yn eu hardaloedd gan nad oes gofyniad i'r sefydliadau hyn gael eu cofrestru ar hyn o bryd; ac o'r herwydd ni chesglir y data hwn fel mater o drefn. Yn anffodus, bu diffyg data dibynadwy ers tro byd ar nifer y Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru, gyda data blaenorol a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011 yn amcangyfrif bod 88 sefydliad o'r fath yng Nghymru.⁶ Bu'r diffyg data hwn yn bryder ers tro wrth asesu rôl y sefydliadau mewn lles anifeiliaid yng Nghymru ond byddai rheoleiddio ffurfiol gan awdurdodau lleol yn sicrhau cadw cofnodion dibynadwy. Yn ôl ein hymchwil, derbyniodd awdurdodau lleol Cymru 32 o ymholiadau am Sefydliadau Lles Anifeiliaid dros gyfnod o bum mlynedd yn arwain at 2021, gyda dau awdurdod lleol wrthi'n rhan o ymchwiliadau parhaus ac/neu'n cydlynu â Sefydliad Lles Anifeiliaid yn eu hardal pan ofynnwyd iddynt ym mis Tachwedd 2021.⁷

5. Mae'r holl ffigurau, oni nodir yn wahanol, yn dod o YouGov Plc. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,010 o oedolion yn byw yng Nghymru. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 3 a 7 Chwefror 2022. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigurau wedi'u pwysoli ac maent yn gynrychioliadol o oedolion Cymru gyfan (18+ oed).

6. Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru, 'The case for the regulation of Animal Welfare Establishments in Wales, 2012.

7. Ffigurau a gafwyd drwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a anfonwyd at awdurdodau lleol Cymru, Tachwedd 2021.

Mae 88% o'r cyhoedd yn meddwl y dylai Sefydliadau Lles Anifeiliad gael eu rheoleiddio yng Nghymru.

Dim ond 5% o'r cyhoedd sy'n ymwybodol nad yw Sefydliadau Lles Anifeiliad yn cael eu rheoleiddio yng Nghymru.

Mae 82% o Sefydliadau Lles Anifeiliad o blaid i'r sector gael ei reoleiddio neu ei drwydded.

Nid yw bron hanner yr Sefydliadau Lles Anifeiliad a arolygydd gennym erioed wedi cyfeirio at God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer AWEs.

Ym mis Tachwedd 2021, roedd dau o awdurdodau lleol Cymru yn cynnal ymchwiliadau byw mewn i Sefydliad Lles Anifeiliad, er nad oedd ganddynt unrhyw ddeddfwriaeth benodol i'w gorfodi.



Holi'r Sector

Yn ogystal â rhoi cyfle i'r cyhoedd rannu eu barn ar reoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid, cysylltwyd hefyd â'r sefydliadau eu hunain yng Nghymru i gasglu eu barn ar reoleiddio eu lloches, canolfan achub neu ailgartrefu yn y dyfodol. Cysylltwyd â 52 o sefydliadau i gyd, gan gynnwys canolfannau anifeiliaid yr RSPCA, canolfannau achub ac ailgartrefu eraill ar gyfer anifeiliaid anwes, sefydliadau sy'n arbenigo mewn adsefydlu a rhyddhau anifeiliaid gwyllt a llochesi ar gyfer ceffylau ac anifeiliaid a ffermir.⁸ Ar hyn o bryd ni reoleiddir unrhyw un o'r sefydliadau y cysylltom â hwy, a'r nifer hwn yn cynnwys ymhell dros hanner yr holl Sefydliadau Lles yng Nghymru yn ôl yr amcangyfrifon yn y data uchod a gasglwyd yn 2011. Llanwodd 28 o sefydliadau (54% o'r rhai y cysylltwyd â hwy) ein holiadur dienw, a oedd yn cynnwys cwestiynau yn ymwneud â'r Cod Ymarfer gwirfoddol uchod, yn ogystal â'u barn a'u pryderon ynghylch reoleiddio sefydliadau yn y dyfodol.

Yn gadarnhaol, roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr (85.7%) yn ystyried eu hunain naill ai 'yn gyfarwydd iawn' (39.2%) neu'n 'weddol gyfarwydd' (46.4%) â'r Cod Ymarfer, a dim ond 14.2% o'r ymatebwyr nad oedd yn gyfarwydd o gwbl ag ef. Pan roddwyd cyfle iddynt wneud sylwadau pellach, awgrymodd ymatebwyr y gellid cynnig mwy o gyfleoedd hyfforddi i sicrhau bod y Cod Ymarfer yn cael ei ddeall a'i ddilyn yn gywir, ac eraill yn galw am wneud mwy i fynd i'r afael â'r achos sylfaenol pam fod angen cynifer o Sefydliadau Lles Anifeiliaid, ac felly angen y Cod Ymarfer.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gyfarwydd â'r Cod Ymarfer i ryw raddau, dim ond 10.7% o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn cyfeirio ato 'yn rheolaidd iawn', gyda hanner ohonynt yn cyfeirio ato yn 'weddol reolaidd' neu 'ar adegau'. Yn bryderus, nid oedd 40% o'r ymatebwyr erioed wedi cyfeirio at y cod o gwbl, gan awgrymu efallai fod dull gwirfoddol yn rhy hyblyg yn yr achos hwn.

“Does gan rai sefydliadau mo'r wybodaeth a'r profiad hwsmonaeth angenrheidiol i ofalu am yr anifeiliaid yn briodol.

Yn aml iawn does dim uchafswm ar nifer yr anifeiliaid y maen nhw'n eu derbyn ac mae'n troi i fod yn sefyllfa lle mae gormod ohonynt – yn enwedig y sefydliadau hynny nad ydynt yn ailgartrefu. Rhaid i ailgartrefu gael ei wneud yn gyfrifol. Dylai trwyddedu/rheoleiddio hefyd ddigwydd er mwyn sicrhau hyder y cyhoedd – mae rhai sefydliadau'n codi llawer o arian a dydi'r arian hwnnw ddim yn cael ei reoli'n ddigon da i helpu a diogelu'r anifeiliaid. Dylai llochesi a chanolfannau achub fod yn arwain y ffordd ac yn gosod esiampl o arfer da, yn anffodus nid yw llawer ohonynt yn gwneud hynny.”

Dyfyniadau gan Sefydliadau Lles Anifeiliaid

8. Daw'r holl ffigurau, oni nodir yn wahanol, o SurveyMonkey. Cyfanswm maint y sampl oedd 28 o Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru, gyda hyn yn cynnwys llochesi a chanolfannau achub ac ailgartrefu anifeiliaid. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 4 Chwefror a 3 Mawrth 2022. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein ac mae'r ffigurau wedi'u pwysoli.



Pan ofynnwyd iddynt a oedd y Cod Ymarfer wedi eu helpu yn eu gwaith o ddydd i ddydd yn rhedeg y sefydliadau, 'nac oedd' oedd ateb 16 o ymatebwyr (57%), gyda'r 12 arall (43%) yn teimlo ei fod wedi helpu, gyda rhai Sefydliadau Lles yn dweud ei fod yn eu helpu i nodi polisiau coll a sylwi lle y gellid gwella drwy gyfeirio at arfer gorau. Er bod yr ymatebwyr wedi'u rhannu'n gyfartal wrth ystyried a oeddent yn credu bod y Cod Ymarfer yn mynd yn ddigon pell i ddiogelu lles anifeiliaid mewn sefydliadau fel eu rhai hwy, roedd llawer wedi codi'r cwestiwn a ddylid cael canllawiau penodol ar gyfer y gwahanol fathau o sefydliadau sy'n dod o dan y categori Sefydliadau Lles Anifeiliaid.

Teimlai dros hanner (53.5%) yr ymatebwyr fod yr hyrwyddo ar y Cod Ymarfer wedi bod yn 'wael' hyd yn hyn. Dim ond 7% ohonynt a deimlai fod yr hyrwyddo wedi bod yn dda, gyda 35.7% arall yn ystyried ei fod yn 'iawn'. Awgryma hyn y gallai Llywodraeth Cymru wneud llawer mwy i hyrwyddo'r Cod Ymarfer wrth i ni aros am reoliadau er mwyn cefnogi'r sector drwy wybodaeth a rhannu arfer gorau.

Cytunai 82% o'r sefydliadau a ymatebodd y dylid rheoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru, gyda dim ond pedwar ymatebydd o'r 28 (14%) yn ateb 'na ddylent' i'r cwestiwn hwn. Awgryma hyn fod y sector ei hun am gael ei reoleiddio, gyda llawer yn cydnabod na

“Ar hyn o bryd nid oes deddfwriaeth ar waith i reoleiddio'r sector ailgartrefu, felly gall unrhyw un ddechrau sefydliad ailgartrefu neu ei loches ei hun. Mae hyn yn golygu nad oes llawer i ddiogelu'r anifeiliaid ynddynt gan nad yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol wneud hynny ac felly nid yw'n archwilio'r safleoedd hyn. Mae'n destun pryder y gall lles gwael gael effaith ganlyniadol pan gaiff yr anifail ei ailgartrefu o ganlyniad i'r methiannau hyn.”

Dyfyniadau gan Sefydliadau Lles Anifeiliaid

yw'r safonau lles, hwsmonaeth a staffio yn y sefydliadau hyn bob amser yn cyrraedd y safon y dylent. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y costau posibl i'r sefydliadau hyn a sut y gallai'r rheoliadau newydd effeithio ar y sefydliadau yn ariannol. Oherwydd hyn, anogwn Lywodraeth Cymru i ystyried sut y bydd yn mynd ati i roi sicrwydd i'r sector ynghylch unrhyw newid mewn rheoleiddio i sicrhau na chaiff lles anifeiliaid ei beryglu'n anfwriadol o ganlyniad i'r rheoliadau newydd. O fewn y sylwadau a roddwyd, nododd ymatebwyr hefyd y bydd angen gorfodi priodol ar unrhyw reoliadau newydd ar sefydliadau er mwyn iddo fod yn effeithiol ac y bydd angen sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i fonitro'r sefydliadau yn gywir.

Astudiaethau achos a thystiolaeth yr RSPCA

Fel yr unig fudiad lles anifeiliaid yng Nghymru sydd â swyddogion yn gweithio ar lawr gwlad i ymateb i adroddiadau o greulondeb yn erbyn pob anifail, a gyda 71% o'r cyhoedd yn dweud y byddent yn hysbysu elusen lles anifeiliaid am unrhyw bryderon ynghylch Sefydliadau Lles Anifeiliaid, mae'n anochel y cawn ymholiadau gan aelodau pryderus o'r cyhoedd am y sefydliadau hyn. Ers cyhoeddi adroddiad Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru yn 2012, rydym wedi cymryd rhan mewn dau ymchwiliad uchel eu proffil i fethiannau mewn sefydliadau lles anifeiliaid yng Nghymru, gyda'r ddau achos yn dangos sut y gall lles anifeiliaid bregus gael ei beryglu'n ddifrifol gan nad oes unrhyw ofynion ar waith ar hyn o bryd ar gyfer archwiliadau neu wiriadau lles arnynt.

Astudiaeth achos 1: Lloches ceffylau – symud 137 ceffyl, costau > £400,000

Keith Hogben, arolygydd ac arbenigwr ceffylau yr RSPCA:

“Roedd gan yr RSPCA, World Horse Welfare (WHW) ac elusennau ceffylau eraill bryderon am y sefydliad penodol hwn ers cryn amser gan fod ei berchennog yn defnyddio ffyrdd hynod hyblyg i achub ceffylau ac roedd yn amlwg ei fod wedi gweithredu y tu allan i'r gyfraith ar sawl achlysur. Roedd y lloches wedi creu dilyniant mawr iawn ar y cyfryngau cymdeithasol a'r perchennog yn cynnal llawer o ddarllodiadau byw am y ceffylau yr oeddent yn eu hachub ac roeddent yn aml yn feirniadol yn gyhoeddus am yr RSPCA a mudiadau ceffylau eraill na weithredai'n ddigon cyflym i helpu ceffylau yn eu barn hwy.

“Ym mis Tachwedd 2019, aeth cydweithiwr o WHW i leoliad a oedd yn perthyn i'r sefydliad hwn ar ôl derbyn galwad gan bartner y perchennog yn dweud bod angen help arnynt. Unwaith yr oedd y cydweithiwr hwn o WHW ar y safle, daeth yn amlwg bod angen help ar nifer fawr o geffylau oherwydd cyflwr gwael eu corff a'u hamgylchedd byw.

“Gofynnodd ein cydweithiwr o WHW i mi, fel y swyddog ymchwilio, fynd i'r safle i helpu, a dyna wnes i gyda chydweithiwr o'r RSPCA. Pan gyrhaeddodd yno, roedd yn amlwg iawn bod angen gofal brys ar lawer o geffylau, gyda'r milfeddyg ceffylau a oedd yn bresennol yn y lleoliad yn cadarnhau bod angen symud yr holl geffylau i'w hamddiffyn. Yna dechreuais edrych ar y ceffylau fesul un ac roedd cyrff llawer ohonynt

mewn cyflwr gwael, gyda'u hasennau, eu cluniau a'u hasgwrn cefn i'w gweld yn glir – hyd yn oed pan oedd ryg ar eu cefnau. Roedd yr amgylchedd yn gwbl anaddas ar gyfer nifer fawr o geffylau ac nid oedd fel petai unrhyw reolaeth ar eu gofal. Teimlid nad oedd neb yn gyfrifol am y lloches achub ac nad oedd gofynion lles sylfaenol yn cael eu diwallu'n ddyddiol.

“Symudwyd tua 40 o geffylau oddi yno ar ddiwrnod cyntaf ein hymgyrch ar y cyd i'w hachub, gydag 80 ceffyl arall wedi'u symud o leoliad arall dros y deuddydd canlynol. Unwaith eto, roedd llawer o'r ceffylau hyn mewn cyflwr gwael ac roedd angen triniaeth filfeddygol arnynt – yn anffodus, canfuwyd ceffyl ifanc wedi marw mewn llwyni mewn cae a hyn yn cadarnhau ymhellach nad oedd neb yn cadw golwg beunyddiol ar y caeau. Cafodd 17 o geffylau eraill o ddau leoliad eu symud yn y dyddiau a ddilynodd, a'r ceffylau hyn hefyd mewn cyflwr gwael o ganlyniad i beidio â diwallu eu hanghenion. Archwiliwyd yr holl geffylau hyn gan filfeddygon a chawsant y driniaeth yr oedd ei hangen arnynt,

“..roedd cost yr ymgyrch benodol hon i'r trydydd sector yn cyfateb i ymhell dros £400,000.”

ac rwy'n falch o ddweud mai ychydig iawn a oedd wedi gorfod cael eu rhoi i gysgu.

“Symudwyd y ceffylau hyn mewn tywydd oer, gwlyb a gwyntog, gyda'r ceffylau olaf wedi'u llwytho yng nghanol storm eira. I ni, roedd y rhain yn ddyddiau blinedig hir, yn 14 awr o leiaf bob dydd. Wrth helpu i symud y ceffylau hyn roeddwn hefyd yn casglu tystiolaeth gan ei bod yn amlwg y byddai'r ymchwiliad hwn yn arbennig o gymhleth, ac yn y pen draw wedi arwain at fy nhynnu oddi ar y ffordd am bum mis i gwblhau'r ymchwiliad.

“Rwy'n falch o ddweud bod yr unigolyn dan amheuaeth wedi pledio'n euog i bob cyhuddiad o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 pan ddaeth y mater ger bron y llys. Fodd bynnag, roedd cost yr ymgyrch benodol hon i'r trydydd sector yn cyfateb i ymhell dros £400,000, gyda'r elusennau dan sylw yn gorfod talu am hyn ac yn fwrn enfawr ar ein hadnoddau cyfunol – gellid wedi osgoi'r costau hyn pe bai system reoleiddio gadarn eisoes wedi bod mewn grym.

“Fel swyddogion yr RSPCA ar lawr gwlad, mae'n ein rhyfeddu y gall unrhyw berson sefydlu canolfan achub neu loches heb unrhyw drwydded na bod ag unrhyw gymwysterau mewn hwsmonaeth sylfaenol anifeiliaid. Er yr hoffwn ddweud mai achos unigryw oedd hwn, yn anffodus rwyf i'n bersonol wedi ymwneud â symud dros 400 o geffylau o bedwar safle heb drwydded yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf.

“Teimlaf mai bwriad da oedd gan berchennog y sefydliad penodol hwn pan ddechreuodd y ganolfan achub a'i fod hefyd wedi cael sawl mil o bunnoedd yn rhoddion gan y cyhoedd ac wedi apelio ar y cyfryngau cymdeithasol am gymorth gyda'r gwaith. I mi, mae'n edrych fel pe baent yn methu dweud na wrth geisio helpu anifail mewn angen. Anfonodd llawer o bobl eu ceffylau i'r sefydliad hwn gan iddynt addo cartref oes iddynt, ond mewn gwirionedd roedd yn hunllef i'r ceffylau. Hyd heddiw rwy'n siwr y byddaf yn cofio am byth yr olwg farw yn llygaid llawer o'r ceffylau truenus hynny ac mae miloedd o anifeiliaid yn dal o hyd mewn llochesi a chanolfannau achub sy'n byw bywydau torcalonnus oherwydd diffyg trwyddedu ar y safleoedd hyn.”

Astudiaeth achos 2: Lloches i anifeiliaid amrywiol yn y Gogledd – mwy na 130 o anifeiliaid wedi'u symud

Leanne Hardy, Prif Arolygydd yr RSPCA ar gyfer Gogledd Cymru:

“Fel y Prif Arolygydd ar gyfer ardal lleoliad y sefydliad hwn, roeddwn wedi ymweld â'r safle dan sylw sawl gwaith dros nifer o flynyddoedd, ynghyd ag aelodau eraill o staff yr RSPCA. Cawsom ein galw ar y dechrau i edrych ar y lloches hon yn sgil derbyn nifer o gwynion gan aelodau pryderus o'r cyhoedd am les yr anifeiliaid a gedwid ar y safle. Roedd perchennog y sefydliad hwn wedi rhoi ei bywyd i achub anifeiliaid o wahanol rywogaethau, ac wedi derbyn nifer o wobrau am ei gwaith yn ogystal ag ardystiadau gan enwogion ac elusennau eraill. Cawsom ein synnu felly o ddod o hyd i safle yn mynd â'r ben iddo, gyda llety a oedd gan mwyaf yn anaddas ar gyfer yr anifeiliaid a gedwid ynddo, a hyn yn cynnwys cwn, cathod, adar ac anifeiliaid egsotig.

“Rhoesom gyngor i'r perchennog ar sawl achlysur, gan wneud argymhellion ynghylch sut y gellid

gwella'r lloches er mwyn diogelu lles yr anifeiliaid a sicrhau ei bod yn addas i'r diben. Yn anffodus, roedd ein cyngor yn syrthio ar glustiau byddar i raddau helaeth, a ninnau'n dychwelyd i weld tystiolaeth o fân welliannau wedi'u gwneud i'r safonau gofynnol yn unig. Wnaethon ni erioed adael y safle yn fodlon bod digon yn cael ei wneud i ddiogelu lles yr anifeiliaid ac roeddem bob amser yn teimlo mai dim ond mater o amser fyddai hi cyn y caem ein galw i ddychwelyd i'r sefydliad unwaith eto.

“O ran y materion lles a welsom yn ystod ein hymweliadau arolwg, gwelsom ymlusgiaid mewn fifaria budr heb eu gwresogi'n briodol, a hynny wedi arwain atom yn dod ag arbenigwr ymlusgiaid i'r safle i gynnig cyngor, ond ni ddilynwyd y cyngor hwn erioed. Gwelsom adar fel parotiaid a macawiaid yn cael eu cadw mewn cewyll brwnt, pydredig a oedd yn llawn

ysgarthion, gyda chawell arall mewn cyflwr tebyg i byjis. Roedd anifeiliaid bychain fel ffuredau a chwingod hefyd yn cael eu cadw mewn amodau anhylan, gyda'r gwrywod a'r menywod yn cael eu cadw gyda'i gilydd er nad dyma a argymhellir i'r rhywogaethau hyn. Cedwid cathod hefyd mewn amodau gorlawn, gyda ffliw cathod a salwch yn broblem gyffredin yn y lloches. Gan nad oedd gan y sefydliad ddigon o staff a gwirfoddolwyr, ni châr anifeiliaid eu harchwilio ar gyfer afiechydon a phroblemau parhaus, gyda llawer ohonynt â phroblemau y dylid wedi'u trin fel gweithdrefn arferol. Nid oedd yr anifeiliaid yn cael eu harchwilio'n iawn ychwaith pan gyrhaeddant y lloches am y tro cyntaf ac nid oedd gweithdrefnau ar gyfer archwiliadau iechyd rheolaidd na systemau hwsmonaeth ar waith o'r hyn y gallem ei weld.

“Wrth dynnu sylw perchennog y lloches at y materion lles a hwsmonaeth hyn ar sawl achlysur, roedd hi fel petai'n ei chael yn anodd derbyn bod y sefyllfa'n amlwg yn mynd yn fwyfwy allan o reolaeth gan nad oedd digon o staff na gwirfoddolwyr i dendio i'r anifeiliaid a chadw'r llety yn briodol. Tynnodd ymchwiliad gan y cyfryngau sylw at yr achosion o dorri rheolau lles yn y lloches hon, a ninnau wedyn wedi gwneud cyfres arall o ymweliadau a chyflwyno rhwng 20-30 o hysbysiadau gwella i'r perchennog o ganlyniad. Er y byddai dilyn gofynion yr hysbysiadau a roddwyd gennym wedi helpu'r perchennog i ddiogelu lles yr anifeiliaid, gwella enw da'r lloches a helpu i leddfu pryderon y cyhoedd, roedd hi'n anodd iawn eu cael i wrando arnom.

“Oherwydd y pryderon difrifol ynghylch lles a rheoli, daeth y sefydliad yn destun ymchwiliad statudol gan y Comisiwn Elusennau a dechreuom ar y gwaith o symud anifeiliaid o'r safle. Fe symudom dros 130 o anifeiliaid i gyd, gan gynnwys anifeiliaid anwes fel cathod, ffuredau, adar a chwingod, gyda phob anifail yn gorfod cael ei asesu'n unigol. Er bod yn rhaid rhoi dau o'r anifeiliaid i gysgu am fod eu hiechyd mor wael, roeddem yn ofni ar y dechrau y byddai'r nifer hwn yn llawer uwch ac roedd hi'n rhyddhad pan sylweddolwyd y gellid ailgartrefu'r rhan fwyaf o'r anifeiliaid – naill ai gennym ni neu elusennau eraill.

“Ymddengys mai cyllid oedd yr her fwyaf i'r sefydliad penodol hwn yn ogystal â sicrhau bod ganddynt ddigon o staff a gwirfoddolwyr oedd â'r profiad priodol. Roedd colli graddol

“Fe symudom dros 130 o anifeiliaid i gyd, gan gynnwys anifeiliaid anwes fel cathod, ffuredau, adar a chwingod, gyda phob anifail yn gorfod cael ei asesu'n unigol.”

ar enw da'r lloches yn golygu nad oedd rhai gwirfoddolwyr bellach am fod yn gysylltiedig â'r sefydliad, gyda llawer yn peidio â dod i'r golwg yn ôl y disgwyl. Er nad oedd ganddynt staff priodol ar gyfer yr anifeiliaid a oedd dan eu gofal eisoes, roedd y lloches yn dal i dderbyn mwy a mwy o anifeiliaid ac ymddengys ei bod yn ei chael yn anodd gwrthod anifail mewn angen. Er bod y rhan fwyaf o berchnogion llochesi yn dechrau gyda'r bwriadau gorau ac yn rhoi eu gair na fyddent byth yn gwrthod anifail mewn angen, nid yw hyn bob amser yn ymarferol, fel y dangosir gan yr achos penodol hwn. Yn anffodus, gall anifeiliaid bregus sy'n mynd i mewn i'r sefydliadau hyn weithiau gael eu hunain mewn sefyllfa waeth nag yr oeddent ynddo cynt, gyda pherchnogion llochesi mewn sefyllfaoedd o'r fath yn methu â sylweddoli difrifoldeb y problemau gyda'u sefydliadau nes ei bod yn rhy hwyr.

“Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddwyd bod y Comisiwn Elusennau wedi gwahardd cynberchennog y sefydliad hwn ar ôl i ymholiad swyddogol ganfod methiannau lluosog gan ymddiriedolwyr yr elusen, gan gynnwys methu â rheoli'r lloches anifeiliaid yn effeithiol ac yn unol â deddfwriaeth lles anifeiliaid. Nid yn unig y mae'r achos hwn yn dystiolaeth o'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig ag ymchwilio i achosion o fethiannau sefydliadau fel hyn, gan fod y Comisiwn Elusennau wedi dechrau achos cydymffurfio yn erbyn y sefydliad hwn am y tro cyntaf yn 2016, mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cael rheoleiddio yn y dyfodol sy'n cyfeirio at strwythurau llywodraethu da, yn ogystal â safonau lles anifeiliaid.”

Argymhellion RSPCA Cymru

Gan fod awydd amlwg i reoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid o du'r cyhoedd a'r sector lles anifeiliaid ill dau, a gan ein bod ninnau wedi cael profiad uniongyrchol o'r peryglon posibl gadael i sefydliadau o'r fath barhau heb eu rheoleiddio, argymhella **RSPCA Cymru y dylai Sefydliadau Lles Anifeiliaid gael eu rheoleiddio yng Nghymru cyn gynted ag y bo'n realistig bosibl** er mwyn helpu i sicrhau bod anifeiliaid bregus yn cael eu diogelu drwy alluogi awdurdodau lleol i gamu i mewn cyn i sefyllfaoedd fel y rhai y sonnir amdanynt yn nhystiolaethau ein harolygwyr fynd allan o reolaeth. Nid yw bodolaeth Cod Ymarfer gwirfoddol wedi effeithio ar yr angen am reoleiddio statudol; ac nid yw ychwaith wedi lleddfu'r awydd i hyn ddigwydd – ymhlith y cyhoedd, y sector lles anifeiliaid neu'r Sefydliadau Lles Anifeiliaid eu hunain. Mae llawer o Sefydliadau fel y rhain yn gwneud gwaith anhygoel i helpu anifeiliaid mewn angen ond mae diffyg goruchwyliaeth, craffu a rheoleiddio yn golygu y gall problemau lles waethygu ynddynt, gyda pherchnogion mewn perygl o gael eu gorlethu. Fel y mae hi ar hyn o bryd, gall unrhyw un alw eu hunain yn 'lloches' neu'n ganolfan 'achub' yng Nghymru heb wiriadau pwrpasol, a hyn yn amlwg yn gorfod newid gan fod y rhain yn sefydliadau y mae llawer o bobl yn ymddiried ynddynt ac yn tybio y byddant yn destun goruchwyliaeth drylwyr, fel y dangosir gan ganlyniadau ein harolwg i'r cyhoedd uchod. Mae'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar yn yr Alban yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n gweithredu canolfan achub neu loches sydd â mwy nag isafswm o anifeiliaid gael trwydded o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (yr Alban) 2021, gydag ymgynghoriad i gyflwyno system debyg yn Lloegr a ddisgwylir yn y dyfodol agos, sy'n dangos fod angen i Gymru hefyd weithredu er mwyn cael cysondeb yn y sector ledled Prydain.



Mae'r RSPCA yn argymhell y dylid ystyried y pwyntiau canlynol a'u cynnwys yng nghynlluniau Cymru ar gyfer rheoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid yn y dyfodol:

Hyfforddi a hyrwyddo'r Cod Ymarfer ar gyfer Sefydliadau Lles Anifeiliaid.

Er bod ein harolwg o'r sector yng Nghymru yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r sefydliadau y cysylltwyd â hwy yn gyfarwydd â'r Cod Ymarfer gwirfoddol i ryw raddau, nid yw hyn yn gwarantu ei effaith gan nad oedd 40% o'n hymatebwyr erioed wedi troi ato. Mae'n debygol bod llawer rhagor o Sefydliadau Lles Anifeiliaid yn gweithredu yn llai gweladwy a ninnau heb gysylltu â nhw, ac mae'n ddigon posibl y byddai'r rhain yn cyfeirio hyd yn oed yn llai at y Cod Ymarfer. Gallai cynnig hyfforddiant i'r sector ar y Cod Ymarfer helpu i roi gwell dealltwriaeth i Sefydliadau Lles ynghylch sut y gallai fod o fudd iddynt a sicrhau bod rhagor ohonynt yn gyfarwydd â'r arferion gorau y mae'n eu hargymhell, ar yr un pryd â chynorthwyo i hyrwyddo'r Cod ynddo'i hun. Mae'n amlwg bod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy o waith i hyrwyddo'r Cod, ac mae gan hyn y potensial i helpu i ddiogelu anifeiliaid sydd mewn Sefydliadau Lles yng Nghymru wrth aros i gyflwyno deddfwriaeth, gyda mwy na hanner y Sefydliadau Lles Anifeiliaid a holwyd gennym yn sgorio'r hyrwyddo arno yn 'wael' hyd yn hyn. Oherwydd hyn, byddai RSPCA Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i fynd ati ar unwaith i geisio gwella'r ffordd y mae'n hyrwyddo'r Cod Ymarfer.

Gofynion staffio llym

Er bod Sefydliadau Lles Anifeiliaid yn cael eu sefydlu fel arfer gan bobl sydd â bwriadau da, yn anffodus nid yw bwriadau da bob amser yn gyfystyr â lles da, fel yr amlygwyd gan adroddiad 2004 Cyngor Lles Anifeiliaid Anwes. Mae gan bob Sefydliad Lles Anifeiliaid ddyletswydd gofal i'r anifeiliaid y maent yn gofalu amdanynt o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, gyda'r ddeddfwriaeth hon yn amlinellu'r pum angen lles y mae angen i staff eu diwallu ac mae'n hanfodol bod y bobl sy'n rhedeg Sefydliadau Lles Anifeiliaid, a'u staff, yn meddu ar y sgiliau priodol ac yn deall eu cyfrifoldebau i'r anifeiliaid sydd dan eu gofal. Gwelsom drosom ein hunain ba mor bwysig yw sicrhau bod gan sefydliadau o'r fath safonau uchel o ran hyfforddiant a staffio er mwyn osgoi methiannau sy'n codi mewn sefydliadau fel y rhain. Yn ogystal â chael y staff a'r cyfleusterau perthnasol, mae angen arbenigedd i sicrhau bod y sefydliadau hyn yn ariannol gadarn ac yn ticio'r holl flychau wrth sicrhau iechyd a diogelwch yr anifeiliaid ynddynt, y staff a'r bobl sy'n ymweld â nhw. Dengys yr ail astudiaeth achos uchod nad yw statws elusen yn gwarantu safonau lles da gan nad yw eu rheoleiddiwr, y Comisiwn Elusennau, yn archwilio'r safonau, a hyn yn dangos ymhellach yr angen am well hyfforddiant a staffio.



Gall trefniadau llywodraethu cadarn, a chael cynlluniau wrth gefn pan fydd pethau'n mynd o chwith, fod yn eithriadol o bwysig wrth redeg Sefydliad Lles llwyddiannus i anifeiliaid yn y tymor hir, a dylai fod gofynion ychwanegol i sefydliadau fynd y tu hwnt i'r 'safonau hyfforddi a staffio gofynnol' i sicrhau bod ganddynt rywun sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor eu sefydliad. Gallai rheoliad ei gwneud yn ofynnol bod staff a gwirfoddolwyr yn gorfod bodloni gofynion penodol cyn gofalu am anifeiliaid, megis yr angen am gymwysterau penodol neu brofiad profedig gyda'r rhywogaeth dan sylw, er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu dyletswyddau. Rydym hefyd yn argymhell ei bod yn ofynnol i bob sefydliad gael milfeddyg enwebedig i weithio gyda nhw, er mwyn sicrhau bod eu hanifeiliaid yn gallu cael triniaeth feddygol gyson pan fo angen.

Hyfforddiant a chyllid digonol ar gyfer Sefydliadau Lles Anifeiliaid a'u staff

Drwy achub, ailgartrefu ac adsefydlu anifeiliaid mae Sefydliadau Lles yn helpu i ysgafnhau'r baich ar wasanaethau cyhoeddus y byddai angen iddynt fel arall gamu i mewn i helpu'r anifeiliaid hyn, felly mae'n hanfodol eu bod yn cael hyfforddiant a chymorth digonol i'w helpu i addasu i unrhyw ddeddfwriaeth newydd sy'n berthnasol iddynt cyn ei chyflwyno. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda Sefydliadau Lles Anifeiliaid i hyrwyddo unrhyw reoleiddio newydd, yn ogystal â darparu cyfleoedd hyfforddi. Gallai gynnal neu ategu cyrsiau hyfforddi sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer staff a rheolwyr Sefydliadau Lles Anifeiliaid helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y cymwysterau priodol i ofalu am eu hanifeiliaid, ar yr un pryd â chael y cymorth allanol perthnasol. Gallai hyn helpu i sicrhau bod staff presennol yn gallu bodloni'r gofynion a awgrymir uchod a bod rhagor o bobl yn gallu cael yr hyfforddiant a'r profiad perthnasol sydd eu hangen i ofalu am anifeiliaid ac/neu reoli Sefydliad sy'n gadarn ac yn gynaliadwy yn ariannol.

Canllawiau sy'n benodol i rywogaethau ar gyfer Sefydliadau Lles Anifeiliaid

Er ein bod yn cytuno'n bendant bod angen rheoleiddio pob Sefydliad Lles Anifeiliaid, rydym yn annog rhoi ystyriaeth briodol i'r gwahaniaethau mawr rhwng mathau gwahanol o sefydliadau wrth ystyried gofynion rheoliadol newydd ar eu cyfer. Yn wahanol i ganolfannau achub ac ailgartrefu, mae rhai Sefydliadau yn cynnig cartref parhaol 'am oes' i anifeiliaid na fyddent yn gallu cael eu hailgartrefu yn y rhan fwyaf o leoliadau domestig, gan gynnwys bywyd gwyllt, anifeiliaid egsotig ac anifeiliaid fferm. Wrth ystyried y gwahaniaeth rhwng gwahanol fathau o sefydliadau lles anifeiliaid, mae'n werth nodi'r rôl sydd gan y sefydliadau hyn wrth drin ac adsefydlu anifeiliaid gwyllt cyn eu dychwelyd i'w cynefinoedd



naturiol. Gwahanol iawn mewn sawl ffordd yw'r dull y mae sefydliadau yn trin anifeiliaid gwyllt sydd i'w rhyddhau ac anifeiliaid anwes sydd i'w hailgartrefu, gan y gallai adsefydlu a rhyddhau anifail gwyllt yn anghywir fod â'r potensial i beryglu lles yr anifail. Oherwydd y gwahaniaethau posibl rhwng yr anifeiliaid a geir mewn gwahanol fathau o Sefydliadau Lles, mae RSPCA Cymru yn galw am i hyn gael ei adlewyrchu'n briodol mewn unrhyw reoliadau ar gyfer sefydliadau o'r fath, ac mewn canllawiau cysylltiedig, ac y ceir ffocws clir ar fywyd gwyllt, anifeiliaid egsotig ac anifeiliaid fferm, yn ogystal ag anifeiliaid anwes dof. Mae gan bob rhywogaeth anifail eu hanghenion lles penodol iawn eu hunain, felly rhaid i safonau sy'n benodol i rywogaethau gael eu hadlewyrchu mewn unrhyw reoliad neu ganllawiau cysylltiedig, yn ogystal â gofyniad i bob rhywogaeth dderbyn gofal gan staff sydd â chymwysterau a phrofiad priodol i wneud hynny. Dylid cyflwyno canllawiau ar gyfer Sefydliadau Lles Anifeiliaid ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth ei hun, er mwyn helpu i sicrhau bod awdurdodau lleol a'r Sefydliadau yn gallu cyfarwyddo â'u cyfrifoldebau cyfreithiol newydd o'r cychwyn cyntaf. Mae Nodiadau canllaw ar gyfer gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes o dan Reoliadau Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid (Cymru) 2021 yn cynnwys canllawiau sy'n benodol i rywogaethau gan ymdrin â llawer o wahanol fathau o anifeiliaid anwes, felly rydym yn argymhell y dylid cael ymagwedd debyg yn y canllawiau cysylltiedig ar gyfer Sefydliadau Lles Anifeiliaid, ac yn cynnwys ffocws ar anifeiliaid fferm ac anifeiliaid gwyllt hefyd. Yn debyg i drwyddedau i werthwyr anifeiliaid anwes, dylai trwyddedau i sefydliadau lles nodi pa fathau o anifeiliaid y gellir eu cadw, a'i gwneud yn ofynnol cael archwiliadau ychwanegol pan fydd sefydliad yn dymuno ychwanegu rhywogaethau sylweddol wahanol er mwyn sicrhau bod ganddynt y cyfleusterau priodol a'r gallu ymysg y staff i ofalu amdanynt yn dda.

Cyfyngiadau ar nifer yr anifeiliaid mewn Sefydliadau Lles Anifeiliaid

Gan fod potensial i Sefydliadau Lles Anifeiliaid fynd yn orlawn wrth i berchnogion ei chael hi'n anodd gwrthod anifail mewn angen, rydym yn argymhell y dylid cynnwys cyfyngiadau mewn deddfwriaeth ar nifer yr anifeiliaid y gall sefydliadau eu cadw ar un adeg. Dylai hyn fod yn ddibynnol ar y cyfleusterau, y maint a'r darpariaethau staffio sydd ar gael yn y sefydliad, gydag unrhyw derfyn wedi'i gynllunio i helpu sefydliadau i fynd ati'n realistig i ddiwallu anghenion meddygol, lles ac ymddygiadol wrth adsefydlu'r anifeiliaid dan eu gofal. Gellid cynnwys cymhareb staff-i-anifeiliaid, yn seiliedig ar ganlyniadau lles llym, fel rhan o unrhyw gyfyngiadau, ynghyd â gofyniad i awdurdodau lleol wrth roi trwyddedau ystyried faint o anifeiliaid y gall Sefydliad Lles Anifeiliaid yn realistig ddarparu gofal priodol ar eu cyfer a sicrhau y cedwir at y nifer hwn.

Digon o gefnogaeth i helpu awdurdodau lleol gyda gorfodiad

Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn cael digon o gefnogaeth i orfodi unrhyw ddeddfwriaeth newydd. Yn y Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru y sonnir amdano uchod, mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y rhaglen hyfforddi tair blynedd y mae wedi'i hariannu i wella ei chefnogaeth i hyfforddi swyddogion gorfodi mewn perthynas â deddfwriaeth ar sefydliadau bridio cwn. Mae RSPCA Cymru yn croesawu cynlluniau i ehangu'r cynllun hwn i gefnogi trwyddedu gweithgareddau ehangach sy'n ymwneud ag anifeiliaid ynghyd â datblygiad proffesiynol cysylltiedig swyddogion gorfodi – ac rydym yn galw am i hyn gynnwys hyfforddiant sy'n gysylltiedig â Sefydliadau Lles Anifeiliaid. Mae pwysau mawr eisoes ar awdurdodau lleol sy'n ei gwneud yn anodd gorfodi deddfwriaeth lles anifeiliaid, felly mae'n hanfodol eu bod yn cael yr adnoddau ariannol a ffisegol sydd eu hangen arnynt i orfodi trwyddedu Sefydliadau Lles Anifeiliaid a bod yr hyfforddiant perthnasol yn cael ei roi cyn i'r rheoliadau ddod yn ddeddfwriaeth, gyda chanllawiau ategol cadarn yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth ei hun. Gellid ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fynd y tu hwnt i arolwg blynyddol (y gall perchnogion baratoi ar eu cyfer ymlaen llaw), drwy ymweld â Sefydliadau Lles Anifeiliaid ar hap drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal a bod gofynion lles anifeiliaid yn cael eu bodloni drwy'r adeg.





CYMRU

Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid

www.rspca.org.uk

 facebook.com/rspcacymr/  instagram.com/rspca_official/  linkedin.com/company/rspca  tiktok.com/@rspca_official  twitter.com/RSPCAcymru

Mae'r RSPCA yn helpu anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr. Elusen gofrestredig rhif: 219099. Drwy roddion y cyhoedd yn unig y mae'r RSPCA yn bodoli. © RSPCA 2023.

Cedwir pob hawl. Ni ddylid atgynhyrchu'r deunydd hwn na'i ddefnyddio mewn unrhyw fodd o gwbl heb ganiatâd ysgrifenedig penodol yr RSPCA. Lluniau: Llyfrgell yr RSPCA.